


Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes
Prifysgol Bangor
BA ANRHYDEDD CELF GAIN

College of Education & Lifelong Learning
Bangor University
BA HONS FINE ART

SIOE RADD 2008




2008 DEGREE SHOW

Oriel Bangor Mehefin | June 19 - 28
Mynediad am ddim

Ar Agor | Opening 12.30 - 5.00 pm
Admission Free

Llawer o ddiolch i'n holl noddwyr am eu
cefnogaeth ariannol sydd wedi gwneud y catalog
yma a'r arddangosfa yn bosib.

Grateful thanks to all our sponsors, whose
financial help made this catalogue and exhibition
possible.



Artige the home of exceptional art.
co.uk



Browsers Bookshop

73 High Street
Porthmadog
Gwynedd LL49 9EU
01766 512066

Turville Valley Wines, Great Missenden, Buckinghamshire

Gwynedd Office Supplies, Porthaethwy/Menai Bridge

Spar, Llandegfan

Rhoddwyr Preifat | Private donors

A phawb sydd wedi cyfrannu tuag at ein Sêl Cist
Car, Raffl a Ffair Wanwyn.
DIOLCH YN FAWR IAWN!

Plus all who contributed to our Car Boot Sale,
Raffle and Spring Fete.
THANK YOU!

CYFLWYNIAD

Mae pob arddangosfa'n ddathliad i'r artistiaid dan sylw, yn glo ar gyfnod o waith caled â chanolbwynt pendant. Ar yr achlysur hwn, graddedigion cyntaf y cwrs gradd rhan-amser neilltuol, ac o bosibl unigryw mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Bangor yw'r arddangoswyr a hwythau, fel y cyfryw, yn arloeswyr â phob rheswm dros ddathlu carreg filltir bwysig ar gychwyn eu gyrfa.

Yn fy swydd ymgynghorol, rwyf wedi cael y fraint o sylwi ar ymroddiad trawiadol y myfyrwyr hyn a'r hyn y buont yn barod i'w aberthu. Maent yn cael fy nymuniadau gorau i, ynghyd â dymuniadau gorau gan dîm addysgu a staff ategol ymroddedig, a fu'n gyfrifol am ddatblygu'r cwrs. Rydym yn gobeithio y bydd ymwelwyr â'r arddangosfa yn profi drostynt eu hunain yr ymdeimlad o ddarganfyddiad a chyrhaeddiad sydd wedi cyfrannu ati.

Yr Athro Mike Knowles
Ymgynghorydd Cwrs

INTRODUCTION

Every exhibition is a celebration for the artists involved, a conclusion to a period of focused hard work. On this occasion the exhibitors are the first graduates of the distinctive, perhaps unique, part-time degree course in Fine Art at Bangor University, and as such are pioneers with every reason to celebrate an important landmark in their burgeoning careers.

In my advisory capacity I have been privileged to observe the remarkable commitment of these students and the sacrifices they have been prepared to make. They carry with them my very best wishes, together with those of a dedicated teaching team and support staff who have nurtured the development of the course from the beginning. We hope that visitors to the exhibition will share in the sense of discovery and achievement which has gone into its making.

Professor Mike Knowles
Course Consultant



LOUVAINE VICKERS

Arlunydd sy'n dysgu'n barhaus:

Mae fy nghelf yn dweud llawer amdanaf: y ffordd rwy'n gweithio a sut mae'n gwneud i mi deimlo. Rwyf wrth fy modd gyda'r byd rwy'n byw ynddo: y lliwiau, ysblander machlud haul, rhyfeddodau twf a phydredd. Mae natur yn newid yn araf bob eiliad a phob munud o bob dydd a dyma rydw i'n ceisio ei baentio. Rwy'n gobeithio fy mod wedi llwyddo i ddal rhyw gymaint o ryfeddodau'r byd yn fy nghelf fel bydd pobl sy'n edrych ar fy ngwaith yn teimlo fel rydw i'n teimlo ac, efallai, fynd â pheth o'r ymdeimlad yna o ryfeddod i'w ganlyn gyda hwy.

Artist forever learning:

My art says a lot about me: the way I work and how it makes me feel. I love the world I live in: the colours, the glow of a sunset, the wonders of growth and decay. Nature slowly changes each second of each minute of each day and this is what I try to paint. I hope I have captured just some of the wonders of my world in my art so that people looking at my work will feel as I do and perhaps take part of that sense of wonder away with them into their own lives.





ANN ALEXANDER

Ymchwilio i linell a ffurf trwy arlunio a geir yn y gwaith hwn. Wrth arlunio mae rhywun yn ymwneud â'r cysylltiad agosaf a mwyaf uniongyrchol rhwng llygad, meddwl, llaw ac arwyneb. Rwy'n gobeithio datblygu grymuster mynegiant mewn llinellau yn ogystal â rhythmau a chydbwysedd ffurfiol.

Mae'r gwaith a gyflwynir yn adlewyrchu amrywiaeth o brofiadau personol o bwys dros y blynyddoedd: gerddi, cerddoriaeth werin, astudiaethau microsgop, gwyllo pobl - ynghyd â thueddiad gwamal i greu cysylltiadau abs?rd rhwng elfennau digyswllt.

This work represents a focused investigation of line and form through drawing. To draw is to explore the most intimate and immediate connection between eye, mind, hand and surface. I hope to develop an expressive potency of line as well as formal rhythms and balances.

The subject matter reflects a rag-bag of significant personal experience over the years: gardens, folk music, microscope studies, people-watching - along with a whimsical tendency to create absurd conjunctions between unrelated elements.





JAIN KOFFLER

Rwyf wrth fy modd efo lliw a'r hwyl o beidio byth â gwybod beth fydd y narlun nesaf na sut y bydd yn datblygu. Mae gan bob llun ei fywyd ei hun gan arwain trawiad nesaf fy mrws a'r lliwiau a ddefnyddiaf.

P'run a ydwyf yn gweithio gyda phaent sy'n llifo'n rhydd neu'n peintio mewn dull mwy traddodiadol, rwyf hapusaf bob amser pan wyf wrthi gyda'm gwaith celf. Rwy'n mwynhau gweithio gydag olew, paent acrylig, print neu gyfrwng cymysg. Y goleuni a lliw y byd o'm cwmpas sy'n fy ysbrydoli. Celf yw fy ffrind gorau'n sicr.

I love colour and the fun of never knowing what my next painting will be or how it will evolve. Each painting has a life of its own, dictating my next brush stroke and colour application.

Whether I am working with free flowing paint or painting in a more traditional manner, I am always happiest when I am involved with my art. I enjoy working with oils, with acrylics, pastels and the excitement of print or mixed media. My inspiration comes from the light and colour in the world around me. My art is my best friend.





LISA HUDSON

Mae fy ngwaith yn ymwneud ag edrych ar y prydferthwch sydd i'w weld yn yr hyn a wrthodir ac a anwybyddir. Rwy'n cymryd pethau sydd wedi peidio â bod yn ddefnyddiol bellach a'u tynnu o'u cyd-destun gan chwilio am eu cryfderau llai amlwg. Rwy'n cael fy nghyfareddu gan y lleoedd hynny lle mae'r amgylchedd dynol a'r amgylchedd naturiol yn cyfarfod a'r ffordd y maent yn ymaddasu i'w gilydd. Mae darlunio'n rhan bwysig iawn o'm proses waith, gan ddod yn ddeialog myfyriol rhyngof i a'r gwrthrych.

My work is concerned with exploring the beauty inherent in the rejected and the overlooked. I take objects that have outlived their usefulness, and place them out of context, looking for their less obvious qualities. I am fascinated by the places where manmade environment and natural environment meet and by the way that each adapts around the other. Drawing is a very important part of my working process, becoming a meditative dialogue between myself and the subject.





MIKE GASH

Pan ddaeth ymddeoliad â'm gyrfa fel biolegydd cadwriaethol i'w diwedd naturiol, manteisiais ar yr amser a oedd gennyf wedyn i fynd yn ôl at fy niddordeb cynnar mewn celf.

Mae'r cwrs hwn mewn Celf Gain wedi fy helpu i edrych ar y diddordeb hwn a'i ddatblygu mewn llawer o ffyrdd. Yn arbennig, rwyf wedi ceisio defnyddio ffotograffiaeth ddigidol i ddarganfod dulliau gweledol o fynegi fy nheimpladau'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol.

Yn fwyaf diweddar rwyf wedi bod yn arbrofi gyda chyfuno delweddau digidol wedi'u trin a phaentio.

When retirement brought my career as a conservation biologist to its natural end, I made use of the time that was newly available to me to return to my early interest in art.

This course in Fine Art has helped me to explore and develop this interest in many ways. In particular, I have tried to use digital photography to find visual means of expression for my feelings concerning the living environment.

Most recently I have been experimenting with combining manipulated digital images and painting.





JACI ATKINSON

Clociau Carreg

Mae llawer o'm gwaith yn ymwneud ag amser a'i effaith arnom.

Cysyniad haniaethol yw amser; rydym yn ei fesur yn fanwl ac obsesiynol i reoli ein bywydau ac i gyfrif treigl ein hoes, a hefyd rydym yn ei ddefnyddio fel blynyddoedd goleuni i fesur ehangder y gofod a phellterau sydd bron tua hwnt i ddychymyg.

Mae'r newidiadau sy'n digwydd dros amser yn fy nghyfareddu, pren yn graddol droi'n carreg, carreg yn troi'n llwch. Gwelir cysgod amser dros y newidiadau araf a graddol sy'n digwydd yn yr amgylchedd o'n cwmpas, gan barhau'n anochel felly o genhedlaeth i genhedlaeth.


Stone Clocks

Much of my work concerns time and how it shapes us.

Time is an abstract concept; we measure it minutely and obsessively to control our lives, to count our lifetimes out, and we use it as light years to measure the vastness of outer space, distances almost beyond imagination.

I am fascinated by the changes that happen over time, wood gradually becoming stone, stone becoming dust. Time's shadow is captured within the structure of the earth, which while we live our little lives of seventy or so years, continues its slow change, measuring time for generations.





SHEILA M JONES

Rwy'n ymwybodol yn gyson o harddwch y byd naturiol a dyna sy'n fy ysgogi i baentio. Pethau bychan byd natur sy'n denu fy sylw'n arbennig, ac mae'n well gennyf weithio gyda'r ffurfiau a'r gweddau bychain a geir mewn darn o glawdd neu wrych na phaentio tirlun eang. Fy nod yw trosglwyddo'r hyn rydw i'n ei weld wrth edrych ar natur a fy ymateb emosiynol ac ysbrydol iddynt. Felly, er y gall y ffurfiau fod yn realistig mae yna elfennau o ystumio a chyfuno motifau.

I am constantly aware of the beauty of the natural world and it is this that motivates me to paint. I am especially attracted by the small things in nature, preferring to work with the shapes and textures of a hedgerow rather than an all-encompassing landscape view. My aim is to convey what I see when looking at nature, and my emotional and spiritual reaction. So although the forms may be realistic, there are elements of distortion and amalgamation of motifs.



BA ANRHYDEDD CELF GAIN

Mae'r radd unigryw hon mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Bangor yn ymdrin ag ystod eang iawn o ddi-ddordebau celfyddydol, ar y sail fod artistiaid heddiw'r cael budd o brofiad mewn cyfryngau amrywiol. Mae'r rhaglen mewn Dysgu Gydol Oes yn creu cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ymarfer ym maes celfyddyd gain ar sail unigol, gan feithrin creadigrwydd personol o fewn cyd-destun cyfoes. Ymarfer unigol cynaliadwy yw'r egwyddor allweddol i'r radd, a chyflawnir hyn trwy ddarpariaeth mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru. Cwblheir y cwrs gradd trwy chwe blynedd o astudiaeth ran-amser, hyblyg ac mae'r rhaglen drwyadl ar bob lefel yn cynnwys artistiaid gwadd, seminarau a hyfforddiant unigol, yn sylfaen i weithgaredd ymarferol yn y stiwdio.

Andrew Smith

Cydlynnydd Academaidd Celfyddyd Gain
01248 382257
andrew.smith@bangor.ac.uk

BA HONS FINE ART

The unique Fine Art degree at Bangor University engages with a very broad range of art interests on the basis that artists today benefit from expertise in diverse media. The programme in Lifelong Learning creates the opportunity for students to develop their knowledge and understanding of fine art practice on an individual basis, developing personal creativity within a contemporary context. The key principle to the degree is sustainable individual practice and this is achieved by delivery at venues throughout North West Wales. The degree is completed by flexible part time study of six years and the rigorous programme at each level includes visiting artists, seminars and individual tuition underpinning practical studio activity.

Andrew Smith

Academic Co-ordinator Fine Art
01248 382257
andrew.smith@bangor.ac.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r:

Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes
Prifysgol Bangor
Stryd y Deon
Bangor
Gwynedd
LL57 1UT

01248 382708
ll@bangor.ac.uk

For further information please contact:

College of Education & Lifelong Learning
Bangor University
Dean Street
Bangor
Gwynedd
LL57 1UT

01248 382708
ll@bangor.ac.uk

[**www.bangor.ac.uk/ll**](http://www.bangor.ac.uk/ll)